



Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Ymgynghoriad ynghylch newidiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru 2020

Adran:

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Yr Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanethau Cyhoeddus

Dyddiad dechrau:

10 Iau 2020

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

fire@llyw.cymru

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygiadau amrywiol i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru. Byddai'r cynigion yn diwygio rheoliadau'r cynllun er mwyn gwneud buddion goroeswyr (hynny yw, buddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun) yn gyfartal o dan rai amgylchiadau ar gyfer partneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw, a phlant. Mae hyn yn dilyn dyfarniadau'r Goruchaf Lys yn achosion Walker v Innospec¹ a McLaughlin² yn y drefn honno.

Gwneud buddion goroeswyr yn gyfartal ar gyfer partneriaid sifil / gwŷr a gwragedd o'r un rhyw

Yn dilyn cyflwyno partneriaethau sifil yn 2005, diwygiwyd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cynllun 1992) er mwyn darparu pensiwn goroeswr i bartneriaid sifil aelodau o'r cynllun. Cafodd hwn ei gyfrifo yn unol â'r buddion i weddwon ar sail gwasanaeth pensiynadwy yr aelod o'r cynllun o 6 Ebrill 1988 wedi ei gyfrif at ddibenion cyfrifo pensiwn goroeswr. Mae'r un peth yn gymwys i wŷr a gwragedd o'r un rhyw yn dilyn cyflwyno priodasau i gyplau o'r un rhyw yn 2014. Pe bai aelod o'r cynllun yn marw, felly, ni fyddai partneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw ond â'r hawl i bensiwn goroeswr ar sail gwasanaeth pensiynadwy yr aelod ers 6 Ebrill 1988. Mae darpariaethau tebyg hefyd yn gymwys i Gynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (Cynllun Digolledu 2007).

Ym mis Gorffennaf 2017, dywedodd Dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Walker v Innospec y dylai gwŷr a gwragedd o'r un rhyw fod â'r hawl i gael yr un budd goroeswr â'r hyn a ddarperir i oroeswyr priodasau rhwng cyplau o rywiau gwahanol, hynny yw pensiwn sy'n seiliedig ar y gwasanaeth pensiynadwy llawn, nid y gwasanaeth ers mis Rhagfyr 2005, neu unrhyw ddyddiad penodol arall, yn unig. Mae'r ymgynghoriad, felly, yn cynnig diwygio Cynllun 1992 a Chynllun Digolledu 2007 i gael gwared ar y dyddiad terfyn o 1988 er mwyn cydymffurfio â dyfarniad y llys.

Yn ogystal â hynny, mae Rhan 3 (darpariaeth yn ymwneud â chyplau o'r un rhyw) o Atodlen 1 i Gynllun 1992 yn datgymhwyso y rhan o Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 sydd, i bob pwrpas, yn cyfatebu partneriaeth sifil i briodas rhwng cyplau o'r un rhyw. Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Partneriaethau Sifil (Cyplau o Rywiau Gwahanol) 2019, sy'n caniatáu i gyplau o rywiau gwahanol ffurfio partneriaethau sifil, nid yw bellach yn briodol cyfatebu partneriaeth sifil rhwng cyplau o rywiau gwahanol i briodas neu bartneriaeth sifil rhwng cyplau o'r un rhyw, felly rydym yn bwriadu cael gwared ar y ddarpariaeth hon. Mae'r diwygiad hwn yn cael ei ôl-ddyddio i 13 Mawrth 2014, sef y dyddiad pan gyflwynwyd priodasau i gyplau o'r un rhyw.

Dileu cyfyngiadau ar fuddion goroeswyr sy'n daladwy i blant

Mae'r holl gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru yn darparu ar hyn o bryd bod gan blant i aelodau o gynllun pensiwn hawl i fudd goroeswr pan nad oes priod neu bartner goroesol. Nodwyd, fodd bynnag, nad yw Cynllun Digolledu 2007 yn gwneud darpariaeth gyfartal ar hyn o bryd ar gyfer plant i rieni dibriod, neu lysblant neu blant mabwysiedig.

Dywedodd dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin fod atal y buddion sy'n daladwy i

¹ [2017] UKSC 47

² [2018] UKSC 48

blant ar sail statws priodasol eu rhieni yn anghyfreithlon. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnig y dylid diwygio Cynllun Digolledu 2007 er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cynlluniau pensiwn. Byddai hyn yn cael gwared ar wahaniaethu yn erbyn plant a chyplau dibriod gan gydymffurfio â'r dyfarniad. Byddai'r diwygiad hefyd yn cael gwared ar y driniaeth wahanol a gymhwysir i blant dibynnol, llysblant a phlant mabwysiedig ar hyn o bryd.

Diwygiadau digyswllt eraill sy'n ofynnol i gynlluniau pensiwn

Mae'n ofynnol gwneud nifer o ddiwygiadau digyswllt eraill i'r cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân er mwyn diweddarau'r ddeddfwriaeth yn unol â'r arferion a'r canllawiau cyfredol. Mae'r diwygiadau hyn fel a ganlyn:-

Newidiadau i Gynlluniau 1992 a 2007

Pensiwn o ddwy ffynhonnell – Ar hyn o bryd, mae'r ddau gynllun yn caniatáu opsiwn "dau bensiwn" os yw diffoddwr tân yn gweld gostyngiad yn ei dâl pensynadwy pan fo'n ymgymryd â swydd wahanol. Byddai'r diwygiad arfaethedig yn ei gwneud yn glir, pan fo gan ddiffoddwr tân hawl i ddau bensiwn o dan Gynllun 1992 neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (Cynllun 2007), bod swm y pensiwn cyntaf yn cael ei uwchraddio yn flynyddol (fel pe bai'n ddarostyngedig i Ddeddf Pensiwn (Cynnydd) 1971) o adeg y gostyngiad mewn cyflog hyd at ei ymddeoliad.

Mae'r diwygiadau i Gynllun 1992 hefyd yn ei gwneud yn glir, pe be bai aelod, ar ôl i'r cyfrifiadau ar gyfer dau bensiwn gael eu gwneud, ar ei ennill wedi'r cyfan o gael un pensiwn confensiynol wedi ei gyfrifo yn y ffordd arferol, yna dyna'r pensiwn y dylai fod â'r hawl i'w gael. Mae'r diwygiad arfaethedig yn ei gwneud yn glir na ddylid rhoi'r ddau bensiwn os yw cyfanswm y pensynau yn is nag ar gyfer yr un pensiwn (yn ogystal â gwneud mân ddiweddariadau eraill).

Rhannu pensiwn wrth ysgaru – Wrth ysgaru ag aelod o gynllun pensiwn, gellir dyfarnu rhan o'u pensiwn i'w gwâr, gwragedd neu bartneriaid sifil fel credyd. Nid yw Cynllun 1992 a Chynllun 2007 yn rhoi cyfrir am y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ar rannu pensiwn. Mae'n ofynnol gwneud diwygiadau, felly, er mwyn diweddarau cyfeiriad statudol sydd wedi dyddio a sicrhau bod aelodau credyd pensiwn yn parhau i gymudo eu budd fel a ganiateir gan y terfyn cyfandaliad mân-gymudo fel y'i nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Newidiadau i Gynllun 2007

Ffactorau Cymudo Aelodau Arbennig – Ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cynllun 2007 ond yn cynnwys ffactorau cymuno hyd at 65 oed. Erbyn hyn, mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi cynnwys ffactorau hyd at 75 y mae'n ofynnol eu hymgorffori yn neddfwriaeth y cynllun. Mae'r ffactorau cymudo fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2014 (hyd at 65 oed) wedi eu hatgynhyrchu yn y tabl newydd ac nid ydynt wedi newid.

Newidiadau i Gynllun 2015

Taliadau gwerth trosglwyddo clwb - Ar hyn o bryd, mae Cynllun 2015 yn darparu bod diffoddwyr tân gyda hawliau gwarchodedig yng Nghynllun 1992 a Chynllun 2007 yn gallu trosglwyddo buddion pensiwn drwy drefniadau trosglwyddo clwb os ydynt yn trosglwyddo rhwng Gwasanaethau Tân yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Canfuwyd bod gwall yn rheoliadau'r cynllun, fodd bynnag, sy'n golygu y byddai'n rhaid i aelodau gyda hawliau gwarchodedig Cynllun 1992 drosglwyddo'r rhain i Gynllun 2007. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn, fodd bynnag, y byddai'n annheg pe na bai gan aelodau presennol o'r cynlluniau diffoddwyr tân 1992 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yr hawl i ymuno â Chynllun 1992 yng Nghymru wrth drosglwyddo o awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Mae'n rhaid gwneud diwygiadau, felly, er mwyn cywiro'r gwall hwn a chaniatáu i drosglwyddiadau cynllun o'r fath gael eu gwneud.

Casgliad

1. Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i ddatblygu?

Mae'r cynigion polisi a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn ymwneud â nifer o ddiwygiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, gan gynnwys rhai sy'n deillio o ddyfarniadau'r llysoedd. Nod y diwygiadau hyn yw gwneud buddion goroeswyr yn gyfartal ar gyfer partneriaid sifil / gwŷr a gwragedd o'r un rhyw a rhoi hawl gyfartal i fudd goroeswyr i blant sydd wedi eu geni i rieni dibriod. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn, ac ni chodwyd unrhyw faterion yn hwnnw. Rydym hefyd yn cynnig nifer o ddiwygiadau digyswllt eraill i reoliadau'r cynlluniau, er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei diweddarau yn unol â'r canllawiau a'r arferion cyfredol.

Mae aelodau o undebau a chymdeithasau sy'n cynrychioli diffoddwyr tân wedi cael eu hysbysu am y cynigion drwy fynychu cyfarfodydd Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru.

Mae'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn effeithio ar aelodau o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn bennaf, felly dim ond rhan fechan o'r cyhoedd y bydd y diwygiadau yn effeithio arni yn uniongyrchol. Caiff yr holl ddogfennau / deddfwriaeth eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi ei gynnal, ac ni chafodd unrhyw faterion eu codi.

2. Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Fel a nodwyd uchod, nod gwneud y budd goroeswr yn gyfartal ar gyfer partneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw yn ceisio cael gwared ar y gwahaniaethau sydd yn y cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân ar hyn o bryd, a chan hynny sicrhau y cydymffurfir â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal â hynny, mae cael gwared ar wahaniaethu yn erbyn plant sydd wedi eu geni i rieni dibriod yn sicrhau y cydymffurfir â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig wedi codi unrhyw faterion mewn cysylltiad â lles cymdeithasol pobl a chymunedau yng Nghymru nac ar les diwylliannol Cymru nac ar y Gymraeg. Nid yw wedi codi unrhyw faterion ychwaith ynghylch lles economaidd busnesau a'r cyhoedd nac o ran yr amgylchedd. Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig wrth ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad.

3. O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lleddfu unrhyw effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau

4. Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan gaiff ei gwblhau?

Byddwn yn parhau i adolygu'r asesiad effaith integredig fel rhan o'r broses barhaus o ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL ©Hawlfraint y Goron 2020 WG40558 ISBN digidol 978-1-80038-803-1